HEB FARC DIOGELU

Dyddiad: 25ain **Hydref 2011**

(1) Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

(2) Cyngor Sir Ynys Môn

Cytundeb Perfformiad Cynllunio a wneir yng nghyswllt cynigion datblygu yn Wylfa, Bae Cemaes, Ynys Môn

HEB FARC DIOGELU

Cynnwys

1. **Diffiniadau a Dehongli**
2. **Disgrifiad o'r Prosiect**
3. **Cefndir**
4. **Pwrpas y Cytundeb**
5. **Cyfrifoldebau'r Partïon**
6. **Trefniadau Llywodraethu**
7. **Rhaglen y Prosiect ac Amserlen y CPC**
8. **Gorchmynion Gweithgarwch**
9. **Statws y Cytundeb hwn**
10. **Tymor**
11. **Rhyddid Gwybodaeth**
12. **Terfynu'r CPC**
13. **Eiddo Deallusol**
14. **Datrys Anghydfod**
15. **Darpariaethau Aseinio a Throsglwyddo**
16. **Cyfraith Llywodraethu**
17. **Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999**
18. **Rhybuddio a Hysbysu**
19. **Adolygu ac Amrywio**
20. **Toradwyedd**
21. **Dogfennau Cyfeirio**

Atodiadau:
Atodiad 1 – Templedi Gorchymyn Gweithgarwch a Gorchymyn Amrywio
Atodiad 2 – Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa – Trosolwg
Atodiad 3 – Cylch Gorchwyl Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa

GWNEIR Y CYTUNDEB PERFFORMIAD CYNLLUNIO HWN ar y 25 dydd o Hydref 2011

RHWNG:-

(1) Horizon Nuclear Power Wylfa Limited (Rhif Cwmni 6811987) y mae ei Swyddfa Gofrestredig yn 5210 Valiant Court, Gloucester Business Park GL3 4FE ("**Horizon**"); a

(2) Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW (y "**Cyngor**")

1. **Diffiniadau a Dehongli**

Bydd i **Cyfnod Derbyn** yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 8.8;

Ystyr **Gweithgarwch** fydd darn o waith wedi'i ddiffinio ac a ddisgrifir mewn Gorchymyn Gweithgarwch;

Ystyr **Gorchymyn Gweithgarwch** fydd lefel isaf y cwmpas, yr amserlen a'r gost ac fel y cyfeirir fel arall ato yng nghymal 10 y Cytundeb hwn ac y ceir templed ar ei gyfer yn Atodiad 1;

Ystyr **Cytundeb** fydd y Cytundeb Perfformiad Cynllunio hwn;

Ystyr **Datblygiad Cysylltiedig** fydd y rhannau hynny o'r Cynnig Datblygu y mae gan y Cyngor rym i roi caniatâd cynllunio iddo;

Ystyr **Gwerth Gorau** fydd y gofyniad o dan Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i'r Cyngor wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae eu swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan roi sylw priodol i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;

Ystyr **Dyddiad Cadarnhau** fydd yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 8.10.1;

Ystyr **Rheolau Sefydlog y Cyngor** fydd y rheolau sefydlog a fabwysiedir gan y Cyngor am y tro dan ei gyfansoddiad;

Bydd i **ED Datblygedig** yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 13.1;

Ystyr **Cynnig Datblygu** fydd y cynnig gan Horizon i adeiladu gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa a'r Datblygiad Cysylltiedig sy'n cynnwys adeiladau'r adweithyddion, cyfarpar ategol yr orsaf, system oeri a'r seilwaith oeri cysylltiedig, lle i storio gwastraff ar y safle dros dro, cyfleusterau a chysylltiadau cludiant, llety gweithwyr, cyfleusterau ategol a mesurau lliniaru'r effaith ar yr amgylchedd. Er mwyn osgoi amwysedd, ni fydd y Cynnig Datblygu yn cynnwys cysylltiadau â'r Grid Cenedlaethol a fydd yn destun cais ar wahân i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith gan y Grid Cenedlaethol;

Ystyr **Gorchymyn Caniatáu Datblygiad (GCD)** fydd y caniatâd a roddir gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith (CCS) parthed y Cynnig Datblygu;

Ystyr **Cais am GCD** fydd cais am Orchymyn Caniatáu Datblygiad yng nghyswllt y Cynnig Datblygu;

Ystyr **Dyddiad Gorffen** fydd yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 8.7;

Ystyr **Cyfarwyddebau Caffael yr UE** fydd Cyfarwyddeb 2004/18/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 31 Mawrth 2004 ar gydlynu'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau gweithiau cyhoeddus, contractau cyflenwi cyhoeddus a chontractau gwasanaethau cyhoeddus a Chyfarwyddeb 2007/66/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd dyddiedig 11 Rhagfyr 2007 yn diwygio Cyfarwyddebau 89/665/EEC a 92/13/EEC y Cyngor o ran gwella effeithiolrwydd gweithdrefnau adolygu yn ymwneud â dyfarnu contractau cyhoeddus;

Ystyr **Blwyddyn Ariannol** fydd 1 Ebrill i 31 Mawrth;

Ystyr y **Comisiwn Cynllunio Seilwaith** (neu'r **CCS**) fydd y corff a sefydlwyd o dan Adran 1(1) o Ddeddf Cynllunio 2008, neu ei olynydd neu gorff arall a benodir gan y llywodraeth i ymgymryd â'r gwaith o dderbyn ac adrodd ar y Cais am GCD;

Ystyr **Eiddo Deallusol** fydd pob dogfen a deunydd gan gynnwys lluniadau, adroddiadau, llawlyfrau, manylebau, cynlluniau, tablau, rhestrau, amserlenni, cyfrifiadau, rhaglenni cyfrifiadurol a meddalwedd (gan gynnwys cod ffynhonnell a gwrthrych a thapiau magnetig), yr holl data, siartiau llif, rhestri rhaglenni, ffeiliau sicrhau ansawdd a gweinyddol a gohebiaeth fewnol, cynlluniau strategol, dyluniadau a chysyniadau creadigol (pa un ai ar ffurf drafft neu derfynol), pob enw, logo, dyfais a nodau eraill a'r holl Hawliau Eiddo Deallusol ynddynt pa un ai ar ffurf ysgrifenedig, printiedig, electronig neu mewn unrhyw fformat arall;

Mae **Hawliau Eiddo Deallusol** yn golygu patentau, nodau masnach, nodau gwasanaeth, hawliau mewn dyluniadau, enwau masnach, hawlfreintiau a chyfrinachau masnach (ni waeth a oes unrhyw rai o'r hawliau hyn wedi'u cofrestru neu beidio) ac mae'n cynnwys pob cais am unrhyw hawl, mater neu wrthrych o'r fath neu ar gyfer eu cofrestru a phob hawl neu fathau o amddiffyniad tebyg neu sy'n cael effaith gyfwerth neu debyg i unrhyw rai o'r hawliau hyn a all fodoli unrhyw le yn y byd;

Bydd i'r gair **Trwydded** yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 13.3;

Ystyr **Adroddiad Effaith Leol** neu **AEL** fydd adroddiad a baratoir at ddibenion Adran 60(2) o Ddeddf Cynllunio 2008;

Ystyr y **Grid Cenedlaethol** fydd National Grid Electricity Transmission plc;

Yr un ystyr fydd i **Prosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd** ag a roddir i'r term yn Neddf Cynllunio 2008;

Ystyr **Partïon** fydd y Cyngor a Horizon, a bydd yn cynnwys eu holynwyr ac aseineion o bryd i'w gilydd a dehonglir **Parti** fel y naill neu'r llall o'r Partïon;

Ystyr **Cais Cynllunio** fydd cais cynllunio yng nghyswllt unrhyw Ddatblygiad Cysylltiedig;

Ystyr **Amserlen y CPC** fydd Amserlen y CPC y cyfeirir ati yng nghymal 7 y Cytundeb hwn, fel y caiff ei diweddaru gan BPSW o bryd i'w gilydd;

Ystyr **Costau'r Prosiect** fydd y costau rhesymol a wynebir gan y Cyngor dan Orchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio ac yn daladwy gan Horizon yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn;

Rhaglen y Prosiect – bydd i'r term yr ystyr a roddir iddo yng Nghymal 7.1 a 7.2 a fydd yn rhaglen lefel uchel a fydd yn diffinio'r dyddiadau allweddol perthnasol yn arwain at gyflwyno Cais am GCD i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith a phenderfynu ar y Datblygiad Cysylltiedig a bydd ar ffurf siart Gantt (neu fformat arall y gall y Partïon gytuno iddo o bryd i'w gilydd) a ddarperir i'r Cyngor gan Horizon;

Ystyr **Noddwr y Prosiect** fydd unigolyn a enwebir gan bob Parti o bryd i'w gilydd a bydd **"Noddwyr y Prosiect"** yn golygu'r ddau ohonynt;

Bydd i **Cais** yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 11.2;

Bydd i **Defnyddio** yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 13.3;

Ystyr **Gorchymyn Amrywio** fydd gorchymyn yn amrywio Gorchymyn Gweithgarwch fel y cyfeirir ato yng nghymal 8 y Cytundeb hwn, y mae profforma ar ei gyfer wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 i'r Cytundeb hwn;

Ystyr **Rhybudd Tynnu'n Ôl** fydd yr ystyr a roddir iddo yng nghymal 8.7;

Ystyr **Wylfa** fydd y tir ger pentref Cemaes ar Ynys Môn ac wrth ochr yr Orsaf Ynni Niwclear bresennol yn Wylfa ac sydd wedi'i bennu'n addas yn strategol ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol (EN6);

Ystyr **Dogfen Trefniadau Cydweithio Wylfa** fydd y ddogfen o'r un enw y nodir ei lleoliad yng nghymal 21 y cytundeb hwn.

Ystyr **Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa** neu **BPSW** fydd y bwrdd y cyfeirir ato yng nghymal 6.2, ac y mae ei aelodaeth a'i gylch gorchwyl yn cael ei ddisgrifio'n fwy penodol yn Atodiadau 2 a 3 i'r Cytundeb hwn.

Yn y Cytundeb hwn: -

i) Ystyrir bod geiriau sy'n dynodi un rhyw yn dynodi unrhyw ryw arall;

ii) Ystyrir bod geiriau sy'n dynodi'r unigol yn dynodi'r lluosog ac i'r gwrthwyneb;

iii) Ystyrir bod geiriau sy'n dynodi personau yn dynodi corff corfforaethol a/neu bartneriaeth ac i'r gwrthwyneb;

iv) Mae unrhyw gyfeiriad at gymal neu baragraff neu atodlen yn gyfeiriad at gymal neu baragraff neu atodlen yn y Cytundeb hwn wedi'u rhifo felly;

v) Yn niffyg unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb mae unrhyw gyfeiriad at statud, rheoliad, gorchymyn neu offeryn yn cynnwys unrhyw ailddeddfiad neu addasiad statudol ohono ac unrhyw a phob gorchymyn, offeryn, rheoliad, cyfarwyddyd neu gynllun a wneir neu a gyhoeddir dan y statud neu sy'n cael ei ddilysrwydd ohono; a

vi) Mae unrhyw gyfeiriad at "ddiwrnodau gwaith" yn golygu Dydd Llun i Ddydd Gwener heb gynnwys gwyliau banc yng Nghymru a Lloegr.

2. Disgrifiad o'r Prosiect

2.1 Mae Wylfa yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn ffin weinyddol y Cyngor.

2.2 Mae Wylfa wedi'i nodi yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Ddatblygu Niwclear (EN6) fel safle posibl ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd.

2.3 Mae Horizon yn cynnig adeiladu'r Cynnig Datblygu yn Wylfa.

2.4 Bydd y cysylltiad ar gyfer trawsyrru trydan i Safle'r Datblygiad ac oddi yno yn destun ceisiadau ar wahân a fydd yn cael eu cyflwyno gan y Grid Cenedlaethol. Nid yw'r ceisiadau hyn yn destun y Cytundeb hwn.

3. Cefndir

3.1 Dan y drefn gynllunio ar gyfer Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol Eu Harwyddocâd a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008, y caniatâd ar gyfer y Cynnig Datblygu yn Wylfa (heb gynnwys y Datblygiad Cysylltiedig) fydd Gorchymyn Caniatáu Datblygiad (GCD), a fydd yn cael ei archwilio gan y CCS, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y penderfyniad. Er mai'r CCS a'r Ysgrifennydd Gwladol fydd y prif gyrff archwilio a phenderfynu, mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig yn natblygiad y camau mewn Cais am GCD cyn ei gyflwyno a chyn y gwneir y penderfyniad. Y Cyngor ei hun fydd yn penderfynu ar y Ceisiadau Cynllunio ar gyfer y Datblygiad Cysylltiedig.

3.2 Mae Horizon yn cynnig cyflwyno'r Cais am GCD i'r CCS ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd yn Wylfa. Horizon fydd yn gyfrifol am dalu holl ffioedd perthnasol y cais cynllunio sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Datblygu.

3.3 Cyn cyflwyno cais am GCD, cynghorir yr ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol (a chyrff statudol eraill) gydol y broses o ddatblygu cynnig. Mae Horizon a'r Cyngor o'r farn y dylid dilyn y cyngor hwn a byddant yn gwneud hynny yn unol â'r egwyddorion yn Nogfen Trefniadau Cydweithio Wylfa.

3.4 Bydd y Cyngor yn ymgymryd â swyddogaethau penodol yng nghyswllt y Cynnig Datblygu yn Wylfa cyn y penderfynir ar y Cais am GCD. Bydd y rhain yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu iddynt):

3.4.1 Ymgysylltu â Horizon yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio i roi cyngor ar faterion yn ymwneud â'r Cynnig Datblygu;

3.4.2 Dehongli ac ymateb i Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol;

3.4.3 Cynghori ar ymgynghori â'r gymuned;

3.4.4 Cyflwyno sylwadau ar y Datganiad drafft am Ymgynghori â'r Gymuned ("SOCC") a baratoir at ddibenion Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008, ac am ddigonolrwydd y Datganiad ac ymgynghoriad Horizon;

3.4.5 Penderfynu ar ei safbwynt ynghylch y Cynnig Datblygu ac ymateb i ymgynghoriadau a gyflawnir yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Cynllunio 2008;

3.4.6 Llunio Adroddiad Effaith Leol at ddibenion Adran 60(2) o Ddeddf Cynllunio 2008;

3.4.7 Cyfrannu at Ddatganiad Tir Cyffredin i'w gyflwyno i'r CCS;

3.4.8 Negodi a gwneud cytundebau cynllunio priodol neu gytundebau priffyrdd, gan gynnwys unrhyw gytundebau gofynnol yn unol ag Adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1989; a

3.4.9 Penderfynu ar y Ceisiadau Cynllunio sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Cysylltiedig.

3.5 Er mwyn cyflawni'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yng nghymal 3.4 uchod, mae'r Partïon wedi cytuno y bydd y Cyngor a Horizon yn trafod yn gyson gydol y cyfnod hyd at gyflwyno'r Cais am GCD a chyflwyno a phenderfynu ar unrhyw Gais Cynllunio a thu hwnt y cytunir iddo rhwng y Partïon o bryd i'w gilydd.

3.6 Mae'r Partïon yn cydnabod bod y Cynnig Datblygu yn Wylfa yn brosiect mawr iawn a chymhleth sy'n creu cyfleoedd a heriau cynllunio, amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol eraill sylweddol.

3.7 Er nad oes gan y Cyngor y pŵer i benderfynu ar geisiadau Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd, bydd angen bodloni'r CCS bod y Cyngor wedi rhoi mewnbwn priodol yn ystod y cyfnod cyn-ymgeisio, ac wedi ymgysylltu a chynnal asesiadau priodol yn y cyfnod hwnnw.

3.8 Er mwyn sicrhau y gall y Cyngor gyflawni'i swyddogaethau ymgynghorol statudol a chyn-ymgeisio amrywiol yng nghyswllt y Cynnig Datblygu a'i swyddogaethau gwneud cais a phenderfynu yng nghyswllt y Datblygiad Cysylltiedig, mae'r Partïon yn cydnabod y bydd angen adnoddau sylweddol i gyflawni hyn sydd y tu hwnt i allu presennol y Cyngor ac ni fydd ffi'r cais am GCD sy'n daladwy i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn ddigonol ar gyfer hyn ac ni fydd ffioedd y Ceisiadau Cynllunio a fydd yn daladwy yng nghyswllt y Datblygiad Cysylltiedig yn talu'r gost yn llawn ychwaith.

3.9 Mae gan y Cyngor ddyletswyddau statudol i amrywiaeth o randdeiliaid. Wrth gyflawni disgwyliadau Horizon a'r CCS yng nghyswllt y Cynnig Datblygu, rhaid i'r Cyngor sicrhau na fydd y gwasanaethau a ddarpara i eraill yn cael eu peryglu na'u lleihau'n sylweddol.

3.10 Mae'r Partïon wedi cydnabod y bydd angen adnoddau ychwanegol er mwyn sicrhau y gall y Cyngor ddarparu lefel briodol o annibyniaeth a thrylwyredd wrth werthuso ceisiadau Horizon yng nghyswllt y Cynnig Datblygu, gan barhau yr un pryd i gyflawni'i swyddogaethau statudol a dewisol eraill.

3.11 Mae gan y Cyngor bŵer o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio 2008 a deddfwriaeth gynllunio gysylltiedig, Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i godi tâl (am bris cost gan gynnwys gorbenion) am rai gweithgareddau a gwasanaethau lle nad yw ffioedd ymgeisio'n ddigon fel arall i dalu am y cyfryw weithgareddau neu lle mae'r cyfryw weithgareddau'n rhai dewisol.

3.12 Mae'r Partïon yn cydnabod, oherwydd hyd a chymhlethdod y prosesau ymgeisio a phenderfynu, na ellir pennu'r gwaith gofynnol yn ei grynswth ar gyfer y Cynnig Datblygu ar y cychwyn, a bod y Cytundeb hwn felly'n beirianwaith priodol ar gyfer delio â'r telerau ac amodau cyffredinol y gellir eu defnyddio i gytuno ar Weithgareddau gwahanol i alluogi'r Cyngor i barhau i gyflawni'i swyddogaethau statudol mewn modd amserol, trylwyr a theg;

3.13 Mae'r Partïon wedi cytuno y bydd Horizon yn ad-dalu ei Gostau Prosiect i'r Cyngor. Cyn diwedd pob Blwyddyn Ariannol bydd y Cyngor yn rhoi i Horizon fanylion y cyfraddau fesur awr i'w codi gan y Cyngor yng nghyswllt swyddi unigol yn y Flwyddyn Ariannol i ddod.

3.14 Bwriad y Cytundeb hwn yw cael y Partïon i gydweithio, sicrhau llywodraethu amserol ac effeithlon ar y prosesau gwneud cais yng nghyswllt y prosiect, defnyddio adnoddau'n effeithlon ac osgoi dyblygu ymdrech, gan ganiatáu ar gyfer lefel briodol o drylwyredd ac ystyriaeth ddyladwy gan y Partïon ar bob cam o'r broses.

3.15 Mae'r Cytundeb hwn yn gosod y telerau ac amodau er mwyn darparu fframwaith ac gyfer diffinio Gorchmynion Gweithgarwch unigol, a darparu adnoddau ar eu gyfer, y bydd angen ei wneud fel rhan o'r cais am GCD i'r CCS ac unrhyw Geisiadau Cynllunio.

3.16 Ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn arwain at benderfynu ymlaen llaw nac yn effeithio ar y gwaith o ystyried neu benderfynu'n briodol ar unrhyw ganiatâd neu gais nac yn dileu na ffrwyno pwerau, dyletswyddau neu gyfrifoldebau statudol y naill Barti neu'r llall.

4 Pwrpas y Cytundeb

Pwrpas y Cytundeb hwn yw:

4.1 Darparu fframwaith ar gyfer rheoli'r galw ychwanegol am adnoddau a fydd yn deillio o'r Cynnig Datblygu. Bydd y Cytundeb hwn yn caniatáu i Horizon a'r Cyngor ddatblygu a chytuno ar gynllun a rhaglen waith ac adnoddau er mwyn gallu cyflwyno'r cais am GCD i'r CCS yn unol ag Amserlen y CPC a chyflwyno Ceisiadau Cynllunio perthnasol ar gyfer y Datblygiad Cysylltiedig yn unol ag Amserlen y CPC.

4.4 Disgrifio'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli'r Cytundeb hwn, a'r prosesau a fydd yn sail i ddatblygiad y Cais am GCD i'r CCS ac unrhyw Geisiadau Cynllunio i'r Cyngor.

4.5 Cydnabod, wrth gyflawni'i ddyletswyddau statudol gan gynnwys ymatebion fel ymgynghorai statudol ac wrth benderfynu ar Geisiadau Cynllunio, nad yw'r Cyngor yn atebol i Fwrdd Prosiect Strategol Wylfa nac unrhyw barti arall ac na fydd y Cytundeb hwn yn llesteirio nac yn ffrwyno'r Cyngor mewn unrhyw ffordd rhag cyflawni'i bwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol

4.6 Hwyluso proses effeithiol a pharhaus o ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned gyfagos, ymgyngoreion statudol a rhanddeiliaid eraill sydd â buddiannau dilys.

4.7 Cydnabod, yn ddarostyngedig i gymal 4.3, bod y ddau barti'n gyfrifol am sicrhau bod cost, ansawdd ac amserlenni Amserlen y CPC yn cael eu rheoli'n unol â'r Cytundeb hwn a bod y Gweithgareddau'n cael eu cyflenwi o fewn y gyllideb, ac yn ôl yr ansawdd a'r amserlen y cytunwyd arni gan y Partïon yn y Gorchymyn Gweithgarwch perthnasol, y cyfan yn cael ei gydlynu drwy Fwrdd Prosiect Strategol Wylfa.

4.8 Sicrhau'r adnoddau mewnol ac allanol ychwanegol priodol y bydd y Cyngor eu hangen i ddarparu'r mewnbwn priodol i'r Cynnig Datblygu, er mwyn gallu asesu effeithiau a'u lleihau, a bod buddion cymunedol priodol yn cael eu sicrhau i liniaru effeithiau andwyol, bod y Cais am GCD a gyflwynir i'r CCS ac unrhyw Gais Cynllunio a gyflwynir i'r Cyngor yn cydymffurfio ac yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol y bydd y Cyngor neu'r CCS (fel y bo'r achos) ei hangen i ystyried y cais, gan sicrhau hefyd nad oes unrhyw risg ariannol sylweddol i'r Cyngor wrth gyflawni'r gwasanaethau dewisol hyn.

4.9 Sicrhau peirianwaith codi tâl ar gyfer y gwaith a wneir gan y Cyngor ac yn daladwy gan Horizon er mwyn galluogi'r Cyngor i ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau a nodir yng nghymal 3.4 uchod.

4.10 Bwriad y Cytundeb hwn yw darparu fframwaith a strwythur cyffredinol yn nodi'r fformat a'r broses ar gyfer pennu a chomisiynu Gorchmynion Gweithgarwch unigol a fydd yn cael eu llunio dros amser.

4.11 Cytuna'r Partïon y bydd y Cytundeb hwn i ddechrau yn cwmpasu'r gwaith a fydd yn ofynnol hyd at a chan gynnwys cyflwyno'r Cais am GCD i'r CCS, cyflwyno'r Adroddiad Effaith Leol i'r CCS gan y Cyngor, a chyflwyno'r holl Geisiadau Cynllunio gofynnol a phenderfynu arnynt. Mae'r Partïon hefyd yn cytuno y ceir ymestyn y Cytundeb hwn drwy gytundeb ysgrifenedig y Partïon i gynnwys y cyfnod

ôl-gyflwyno gan gynnwys camau archwilio, gweithredu a monitro unrhyw gymeradwyaeth a roddir wedyn gan y CCS ar gyfer datblygu gorsaf ynni niwclear yn Wylfa.

4.12 Er cyffredinolrwydd yr uchod, pwrpas y Cytundeb yw sicrhau'r adnoddau mewnol ac allanol annibynnol priodol i alluogi'r Cyngor i ymgymryd mewn modd effeithlon ac effeithiol â'r gweithgareddau y bernir eu bod yn angenrheidiol gan y Cyngor ac y cytunir arnynt gan Fwrdd Prosiect Strategol Wylfa mewn cysylltiad â'r Cynnig Datblygu.

5 Cyfrifoldebau'r Partïon

5.1 Mae cydgyfrifoldebau'r Partïon yn cynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu iddynt):

5.1.1 Sicrhau bod trefniadau rheoli prosiect a llywodraethu clir, tryloyw a chadarn yn cael eu sefydlu i gyflawni'r Gorchmynion Gweithgarwch a bod y rhain yn cael eu cynnal gydol oes y Cytundeb hwn;

5.1.2 Gweithio ar y cyd ac yn greadigol i sicrhau bod y Gorchmynion Gweithgarwch yn cael eu cyflawni a'u gweithredu mewn modd amserol, cadarn ac effeithlon;

5.1.3 Cytuno ymlaen llaw ar y Gorchmynion Gweithgarwch unigol a fydd yn ofynnol i gyflawni Amserlen y CPC a sicrhau bod y Gorchmynion Gweithgarwch yn cael y cyllid a'r adnoddau priodol;

5.1.4 Sicrhau y cytunir yn amserol ar amseroedd ymateb a dyddiadau cau ymarferol ar gyfer rhoi sylwadau neu fewnbwn;

5.1.5 Sefydlu a chynnal tîm prosiect gyda rheolwr prosiect dynodedig;

5.1.6 Sicrhau cynrychiolaeth briodol yng nghyfarfodydd Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa a fforymau eraill a sefydlir yn unol â Dogfen Trefniadau Cydweithio Wylfa;

5.1.7 Sicrhau yr ymgynghorir yn briodol â rhanddeiliaid a'r gymuned (ac ymgynghori'n ddwyieithog lle bo hynny'n briodol);

5.1.8 Cyflawni dyletswyddau statudol a pheidio â pheryglu na ffrwyno pwerau, dyletswyddau a chyfrifoldebau parthed y Cynnig Datblygu nac unrhyw rai o swyddogaethau eraill y naill Barti i'r Cytundeb hwn;

5.1.9 Hysbysu'i gilydd o faterion a all arwain at newidiadau i Amserlen y CPC a chytuno ymlaen llaw ar unrhyw Orchmynion Amrywio;

5.1.10 Cytuno, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar gytundebau statudol (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r rheini) o dan Adran 106 o

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac Adran 278 o Ddeddf Priffyrdd 1980 (fel y bo'n briodol) cyn cyflwyno'r Cais am GCD i'r CCS; a

5.1.11 Cydymffurfio cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol â'r protocol cyfathrebu y cytunir arno gan Fwrdd Prosiect Strategol Wylfa (fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd).

5.2 Cytuna'r Partïon y bydd cael cytundeb ar y cyd ar y methodolegau i'w defnyddio ar gyfer pob maes astudiaeth arbenigol sy'n berthnasol i gwmpas y Gorchmynion Gweithgarwch yn lleihau'r posibilrwydd o'r Partïon yn anghytuno ynghylch canlyniadau'r astudiaethau arbenigol ac yn sicrhau y bydd adnoddau'r ddau Barti'n cael eu defnyddio'n effeithlon. I'r diben hwnnw bydd Horizon (lle bynnag y bo hynny'n ymarferol ac yn rhesymol bosibl) yn cytuno â'r Cyngor, a lle bydd y Cyngor yn ymgymryd ag astudiaethau arbenigol yng nghyswllt y Cynnig Datblygu, bydd yn cytuno ymlaen llaw â Horizon, ar y methodolegau ar gyfer pob maes astudiaeth arbenigol sy'n berthnasol i gwmpas y Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch perthnasol. Os na fydd hyn yn rhesymol nac yn ymarferol bosibl, rhaid i Horizon, neu'r Cyngor, hysbysu'r Parti arall yn ysgrifenedig am y rhesymau pam nad ydynt yn teimlo y gallant gytuno ymlaen llaw ar y fethodoleg neu fethodolegau ar gyfer yr astudiaeth benodol.

5.3 Bydd cyfrifoldebau Horizon yn cynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu iddynt):

5.3.1 Yn amodol ar gydymffurfiad y Cyngor â chymal 8 y Cytundeb hwn, neu oni chytunir fel arall gan y Partïon, ad-dalu i'r Cyngor gostau rhesymol y Prosiect y mae'r Cyngor wedi'u hwynebu wrth ymgymryd â'r gwaith yn y Gorchmynion Gweithgarwch neu Orchmynion Amrywio yn unol â'r egwyddorion ailgodi tâl a nodir yn y Cytundeb hwn a/neu'r Gorchmynion Gweithgarwch (fel y bo'n briodol); a

5.3.2 Cydnabod fel rhan o Amserlen y CPC bod amserlenni digonol yn cael eu cynnwys yn Amserlen y CPC ar gyfer caffael a/neu gomisiynu adnoddau allanol (os bydd raid) yn briodol yn unol â gofynion Gwerth Gorau, Cyfarwyddebau Caffael yr Undeb Ewropeaidd a Rheolau Sefydlog y Cyngor, a sicrhau y caniateir amser digonol yn Amserlen y CPC ar gyfer asesu a gwerthuso cyflwyniadau'n briodol a pharatoi adroddiadau, yn unol â'r Gorchmynion Gweithgarwch a Gorchmynion Amrywio perthnasol, yn ogystal â chaniatáu ar gyfer ymgysylltu'n llawn ac yn briodol â'r gymuned yn unol â'r trefniadau cyswllt cytunedig.

5.4 Bydd cyfrifoldebau'r Cyngor yn cynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu iddynt):

5.4.1 Hyd y bo modd, bod yn hyblyg i anghenion y Cynnig Datblygu ac Amserlen y CPC a gwneud y gorau o adnoddau a chostau mewn ymateb i amrywiadau yn y gwaith;

5.4.2 Cyflwyno sylwadau ar y Datganiad drafft am Ymgynghori â'r Gymuned ("SOCC") a baratoir at ddibenion Adran 47 o Ddeddf Cynllunio 2008, ac am ddigonolrwydd y Datganiad ac ymgynghoriad Horizon;

5.4.3 Asesu a hysbysu'r CCS am ddigonolrwydd yr ymgynghori a gyflawnir gan Horizon;

5.4.4 Sefydlu ac wedyn cynnal capasiti digonol yn y Cyngor i gyflawni tasgau fel y cytunwyd arnynt mewn Gorchmynion Gweithgarwch a Gorchmynion Amrywio, monitro gwaith cyflawni Gorchmynion Gweithgarwch a Gorchmynion Amrywio y cytunwyd arnynt, a'u costau, ac wrth wneud hynny peidio â mynd y tu hwnt i'r capiau cyllideb y cytunwyd arnynt fel y'u nodir yn y Gorchmynion Gweithgarwch a Gorchmynion Amrywio perthnasol heb gamatâd ymlaen llaw Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa;

5.4.5 Rhoi sylwadau ar y datganiadau dull ar gyfer gwerthuso effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y Cynnig Datblygu, a chyfrannu fel y bo'n briodol at y datgamiadau dull;

5.4.6 Gwerthuso'r effeithiau lleol a darparu cyngor cyn-ymgeisio i Horizon ar y Cynnig Datblygu er mwyn gostwng yr effeithiau i lefel briodol a sicrhau buddion priodol;

5.4.7 Darparu mewnbwn i'r Datganiad Tir Cyffredin, a rhoi sylwadau arno, ar gyfer ei gyflwyno i'r CCS;

5.4.8 Paratoi Adroddiad Effaith Leol a'i gyflwyno i'r CCS at ddibenion Adran 60(2) o Ddeddf Cynllunio 2008;

5.4.9 Penderfynu ar ei safbwynt ynghylch y Cynnig Datblygu ac ymateb i ymgynghoriadau a gyflawnir yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Cynllunio 2008;

5.4.10 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio; a

5.4.11 Rhoi sylwadau ar geisiadau cysylltiedig a pherthnasol eraill sydd y tu allan i awdurdodaeth y Cyngor ond y mae angen i Horizon eu sicrhau mewn cysylltiad â'r Cynnig Datblygu.

5.5 Wrth weithredu'r Cytundeb hwn, bydd y Cyngor ar bob achlysur yn gweithredu'n annibynnol ac yn ddiduedd ac yn unol â'i bolisi cynllunio a Deddf Cynllunio 2008.

5.6 Nid yw llofnodi'r Cytundeb hwn na darparu cyngor gan swyddogion yn ymrwymo'r Cyngor i unrhyw benderfyniad neu argymhelliad yn y dyfodol parthed y Cynnig Datblygu neu unrhyw Ddatblygiad Cysylltiedig.

5.7 Wrth ymgymryd â'i gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cytundeb hwn (ond nid fel arall) mae'r Cyngor yn cytuno i sefydlu perthynas weithio ddiduedd ond gydweithredol gyda Horizon, cefnogi Horizon i baratoi a chyflwyno cais dilys am GCD i'r CCS, fel bo'r Cais am GCD a gyflwynir yn bodloni gofynion y CCS ac y gellir ei dderbyn a symud ymlaen i gamau cyn-archwilio ac archwilio proses gwneud penderfyniadau'r CCS.

5.8 Bydd y Cyngor yn gweithio gyda Horizon i ddarparu i'r CCS yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arno i alluogi'r CCS i ddilysu a dod i benderfyniad ar y cais am GCD a gyflwynir gan Horizon parthed y Cynnig Datblygu.

6 Trefniadau Llywodraethu

6.1 Mae'r Partïon yn cytuno bod trefniadau llywodraethu clir a thryloyw yn hanfodol i sicrhau y cyflawnir amcanion y Cytundeb hwn ac i sicrhau bod y broses o ddirprwyo gwneud penderfyniadau yn ei lle.

6.2 Ar gyfer materion sy'n ymwneud â rheoli adnoddau'r Cyngor a'r gofynion gweithredol sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Cytundeb hwn, bydd y canlynol yn berthnasol:

6.2.1 Pan ddaw'r Cytundeb hwn yn weithredol, bydd y Partïon yn cytuno ar Fwrdd Prosiect Strategol Wylfa (BPSW) ac yn ei sefydlu wedyn. BPSW fydd yn gyfrifol am reolaeth gyffredinol y prosiect a'r gwaith o wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Gorchymyn Gweithgarwch ac unrhyw Orchmynion Amrywio cysylltiedig yn unol â'r Cytundeb hwn. Bydd BPSW yn darparu adroddiadau i Noddwyr Prosiect y Partïon perthnasol. Bydd pob Noddwr Prosiect yn ei dro yn darparu adroddiadau i'w sefydliadau;

6.2.2 Bydd BPSW yn cynnwys cynrychiolwyr o Horizon a'r Cyngor. Mae cylch gorchwyl arfaethedig BPSW i'w weld yn Atodiad 3 i'r Cytundeb hwn;

6.2.3 Bydd BPSW yn cytuno ar y Gorchmynion Gweithgarwch a'r Gorchmynion Amrywio sy'n gysylltiedig ag Amserlen y CPC (gan gynnwys dyddiadau allweddol ac aseinio gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hyn), ac yn eu cymeradwyo; a

6.2.4 Bydd BPSW yn gyfrifol am weithrediad y Cytundeb hwn a bydd yn ceisio sicrhau bod y Cyngor a Horizon yn darparu cyngor a gwybodaeth yn unol â'r Gorchmynion Gweithgarwch neu'r Gorchmynion Amrywio er mwyn cyflawni'r Weledigaeth ac Amserlen y CPC a bod y ddau barti'n gweithredu'n unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

6.3 Mae'r ddau Barti'n cydnabod y bydd holl ymatebion ffurfiol y Cyngor ynghylch safbwynt y Cyngor yng nghyswllt y Cynnig Datblygu yn cael eu cymryd gan y Cyngor yn unol â'i Gyfansoddiad ac yn ôl gofynion statudol a rheoleiddio. Wrth lunio ei farn neu ei argymhellion rhaid i BPSW ystyried y Weledigaeth ond ni fydd y Cyngor yn rhwym wrth unrhyw beth y cyfeirir ato yn y Weledigaeth.

7. Rhaglen y Prosiect ac Amserlen y CPC

7.1 Bydd Rhaglen y Prosiect yn cael ei pharatoi gan Horizon a'i darparu i'r Cyngor cyn gynted ag y bydd ar gael. Horizon fydd yn cynnal Rhaglen y Prosiect ac yn hysbysu'r Cyngor am unrhyw newidiadau o bwys iddi a rhoi adroddiad ar y cyfryw newidiadau yng nghyfarfod nesaf BPSW.

7.2 Rhaglen y Prosiect fydd y sail ar gyfer pennu'r tasgau i'w cyflawni (drwy gyfrwng Gorchmynion Gweithgarwch) er mwyn cyrraedd y cerrig milltir gofynnol sy'n gysylltiedig â'r Cynnig Datblygu.

7.3 Yng ngoleuni Rhaglen y Prosiect, bydd y Cyngor, drwy ymgynghori â Horizon, yn diffinio Amserlen y CPC a'r gwaith y bydd yn rhaid ei wneud sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor er mwyn galluogi'r Cyngor i gyflawni'i gyfrifoldebau fel y'u nodir yng nghymal 5 a darparu'r wybodaeth y mae'r CCS ei hangen. Bydd y gwaith yn cynnwys cyfres o Orchmynion Gweithgarwch i'w cyflawni gan y Cyngor.

8. Gorchmynion Gweithgarwch

8.1 Bydd cynigion ar gyfer Gorchmynion Gweithgarwch ac amrywiadau iddynt yn cael eu cyflwyno gan gynrychiolwyr y Cyngor, gyda chynrychiolwyr o Horizon yn eu hadolygu ac yn cytuno arnynt.

8.2 Bydd y Partïon yn cytuno ar y brîff ar gyfer pob Gorchymyn Gweithgarwch a'r dull o gaffael y gwaith (gan gynnwys y telerau ac amodau perthnasol) y cyfeirir ato yn y Gorchymyn Gweithgarwch. Trwy gytuno ar y dull caffael, mae Horizon yn cydnabod dyletswyddau'r Cyngor i sicrhau y ceir Gwerth Gorau, ac i gydymffurfio â Chyfarwyddebau Caffael yr UE ac yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor.

8.3 Bydd y Gorchmynion Gweithgarwch y cytunir arnynt (gan gynnwys manylion y trefniadau caffael priodol) yn cael eu cyflwyno i BPSW i'w cymeradwyo ynghyd â'r Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio (os yw'n briodol) wedi'i gwblhau.

8.4 Bydd y Cyngor yn ymgymryd â'r gwaith a ddiffinnir yn y Gorchmynion Gweithgarwch a fydd wedi'u cymeradwyo gan ddefnyddio'i arbenigwyr mewnol ei hun yn ôl y cyfraddau a bennir yn y Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio perthnasol a fydd yn cael eu had-dalu gan Horizon yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn. Yng nghyswllt Gorchmynion Gweithgarwch sy'n gofyn am waith sydd y tu allan i gwmpas arbenigedd neu allu'r Cyngor, bydd y Cyngor yn comisiynu'r gwaith a ddiffinnir mewn Gorchymyn Gweithgarwch o'r fath yn unol â gweithdrefnau caffael priodol y cytunir arnynt yn y Gorchymyn Gweithgarwch a Rheolau Sefydlog y Cyngor.

8.5 Mae'r Cyngor yn cytuno na fydd yn penodi nac yn cyfarwyddo ymgynghorydd allanol heb gytuno ar Orchymyn Gweithgarwch neu Gorchymyn Amrywio y bydd BPSW wedi'i gymeradwyo.

8.6 Wrth benodi ymgynghorydd allanol neu gyflogi adnoddau staff ychwanegol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Cytundeb hwn, rhaid i'r Cyngor ystyried yr angen i sicrhau y bydd modd atal dros dro neu derfynu penodiad o'r fath drwy roi rhybudd rhesymol, ac felly os bydd y Partïon yn cytuno bod angen diwygio Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchmynion Gweithgarwch ac/neu nad ydynt yn berthnasol mwyach, neu os bydd Horizon yn tynnu'i gefnogaeth yn ôl ar gyfer ymgymryd â Gorchymyn neu Orchmynion Gweithgarwch, bydd y Cyngor yn gallu atal dros dro

neu derfynu'r penodiad a lliniaru maint unrhyw Gostau Prosiect sy'n gysylltiedig â Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch o'r fath a ysgwyddir gan Horizon.

8.7 Os bydd Horizon yn penderfynu tynnu'i gefnogaeth yn ôl ar gyfer Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchmynion Gweithgarwch neu os bydd fel arall yn terfynu Gorchymyn, rhaid iddo roi rhybudd o 10 diwrnod gwaith o leiaf ("Rhybudd Tynnu'n Ôl") o'i fwriad i wneud hynny i reolwr prosiect dynodedig y Cyngor a rhaid iddo, yn y cyfryw rybudd, nodi'r dyddiad gorffen ("Dyddiad Gorffen"). Ar ôl y dyddiad hwn ni fydd yn gyfrifol wedyn am gostau unrhyw waith y bydd y Cyngor yn eu hwynebu mewn perthynas â Gorchymyn/Gorchmynion o'r fath. Wrth gyfrifo'r Dyddiad Gorffen rhaid i Horizon ystyried y cyfnod(au) rhybudd a bennir yn y Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch perthnasol a sicrhau nad yw'r Dyddiad Gorffen yn y Rhybudd Tynnu'n Ôl am gyfnod byrrach na'r cyfnod a bennir yn y Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch. Rhaid cyflwyno pob Hysbysiad Tynnu'n Ôl yn unol â chymal 18.

8.8 Rhaid i'r Cyngor, cyn pen 20 diwrnod gwaith i dderbyn y Rhybudd Tynnu'n Ôl (y "Cyfnod Derbyn") roi rhybudd ysgrifenedig yn nodi a yw'n bwriadu parhau â'r Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch perthnasol er gwaethaf penderfyniad Horizon i dynnu'n ôl.

8.9 Os bydd y Cyngor yn hysbysu Horizon nad yw'n bwriadu parhau â'r Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch, Horizon fydd yn gyfrifol am gostau'r gwaith a fydd wedi'i wneud hyd at y Dyddiad Gorffen a bennir yng nghymal 8.7 (ar yr amod nad yw costau o'r fath pan gânt eu cyfuno â'r costau eraill sy'n gysylltiedig â'r Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch yn uwch na'r cap cyllideb a bennir yn y cyfryw Orchymyn/Orchmynion Gweithgarwch). Y Cyngor fydd yn gyfrifol am atal dros dro neu derfynu'r penodiad(au) perthnasol yn brydlon a rhaid iddo wneud ei orau glas i leihau costau ac adleoli adnoddau er mwyn lleihau maint y cyfryw gostau.

8.10 Os bydd y Cyngor yn hysbysu Horizon am ei awydd i barhau â'r Gorchymyn Gweithgarwch yna:

8.10.1 Horizon fydd yn gyfrifol am gostau'r Cyngor hyd at y diwrnod y caiff wybod gan y Cyngor (y "Dyddiad Cadarnhau") (ar yr amod nad yw'r cyfryw swm yn fwy na'r cap cyllideb sy'n cael ei bennu mewn Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch o'r fath); a

8.10.2 Y Cyngor fydd yn gyfrifol am gostau parhau â'r Gorchymyn/Gorchmynion Gweithgarwch perthnasol o'r Dyddiad Cadarnhau ymlaen.

8.11 Os na fydd y Cyngor yn rhoi unrhyw rybudd yn unol â chymal 8.8 uchod, bydd gan Horizon yr hawl i ragdybio bod y Cyngor yn bwriadu parhau â'r Gorchmynion Gweithgarwch a bydd y Dyddiad Cadarnhau at ddibenion cymal 8.10.1 a'r Dyddiad Gorffen at ddibenion cymal 8.7 uchod yn cael ei ystyried y dyddiad sy'n digwydd pan ddaw'r Cyfnod Derbyn i ben.

8.12 Ni fydd gwaith yng nghyswllt Gorchymyn Gweithgarwch unigol yn cael ei ddechrau nes y bydd Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo gan BPSW yn unol â'i delerau llywodraethu. Y mae profforma o Orchymyn Gweithgarwch y cytunwyd arno yn Atodiad 1 i'r Cytundeb hwn.

8.13 Bydd pob Gorchymyn Gweithgarwch a Gorchymyn Amrywio yn cynnwys cap cyllideb penodedig ar gyfer y Gorchymyn Gweithgarwch a'r Gorchymyn Amrywio ac ni cheir mynd y tu hwnt i gap cyllideb o'r fath heb gael cymeradwyaeth BPSW ymlaen llaw. Er mwyn osgoi dryswch, ni fydd Horizon yn gyfrifol am gostau y bydd y Cyngor yn eu hwynebu a fydd yn fwy na'r cap cyllideb penodedig oni bai fod hynny wedi'i gytuno arno yn ysgrifenedig fel arall rhwng Horizon a'r Cyngor.

8.14 Negodir a chytunir ar unrhyw amrywiadau i Orchymyn Gweithgarwch y cytunwyd arno gan ddefnyddio profforma Gorchymyn Amrywio. Y mae profforma o Orchymyn Amrywio yn Atodiad 1 i'r Cytundeb hwn.

8.15 Bydd Gorchmynion Gweithgarwch a Gorchmynion Amrywio yn cael eu comisiynu ar ôl i BPSW gymeradwyo'r Gorchymyn Gweithgarwch neu'r Gorchymyn Amrywio oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig rhwng Horizon a'r Cyngor.

8.16 Os bydd y Cyngor yn comisiynu gwaith sy'n destun Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio naill ai cyn i'r Gorchmynion gael eu cymeradwyo gan BPSW fel sy'n ofynnol gan gymal 8.15 uchod neu heb gael cytundeb penodol y Partïon fel sy'n ofynnol gan gymal 8.13 uchod, y Cyngor fydd yn gyfrifol am y costau llawn yng nghyswllt y gwaith a wneir naill ai tan y bydd BPSW yn cymeradwyo'r Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio neu tan y cytuna'r Partïon y gellir cychwyn ar y gwaith a ddiffinnir yn y Gorchymyn Gweithgarwch neu'r Gorchymyn Amrywio, pa un bynnag fo'r cynharaf.

9. Statws y Cytundeb hwn

9.1 Mae gan y Cyngor bwerau o dan Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, Deddf Cynllunio 2008 a deddfwriaeth gynllunio gysylltiedig, Adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, ac Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i godi tâl am rai gweithgareddau lle nad yw'r ffioedd ymgeisio'n talu'n llawn am y cyfryw weithgareddau neu lle mae'r cyfryw weithgareddau yn rhai dewisol.

9.2 Mae gan y Cyngor a Horizon yr awdurdod priodol i wneud y Cytundeb hwn.

9.3 Nid yw'r Cytundeb hwn yn gosod dyletswydd ar Horizon i wneud cais am unrhyw gamatâd sy'n ofynnol ar gyfer y Cynnig Datblygu na bwrw ymlaen ag unrhyw rai o agweddau'r Cynnig Datblygu.

9.4 Nid yw'r Cytundeb hwn yn ffrwyno disgresiwn y Cyngor parthed ei ddyletswyddau i ystyried a phenderfynu'n briodol ar unrhyw geisiadau yng nghyswllt y Cynnig Datblygu.

10. Tymor

10.1 Mae'r Cytundeb hwn yn weithredol o'r dyddiad llofnodi a bydd yn dod i ben ar:

10.1.1 unrhyw ddyddiad ar yr hwn neu o'r hwn y bydd Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa yn cytuno nad oes angen cyflawni rhagor o waith o dan ddarpariaethau'r Cytundeb hwn; neu

10.1.2 ac eithrio lle cytunir fel arall gan y Partïon yn ysgrifenedig, y diweddaraf o'r dyddiadau canlynol - dyddiad cyflwyno'r Cais am GCD i'r CCS, y dyddiad y mae'r Cyngor yn cyflwyno'r Adroddiad Effaith Leol i'r CCS a dyddiad penderfynu ar y Cais Cynllunio terfynol; neu

10.1.3 y dyddiad a nodir mewn rhybudd a gyflwynir gan Horizon i'r Cyngor yn dweud na fydd yn bwrw ymlaen â'r Cynnig Datblygu, na fydd yn llai na 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y rhybudd; neu

10.1.4 y dyddiad a bennir mewn rhybudd a gyflwynir gan y Cyngor i Horizon yn datgan bwriad y Cyngor i dynnu'n ôl o'r Cytundeb hwn, na fydd yn llai na 10 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad y rhybudd; neu

10.1.5 fel y terfynir fel arall yn unol â chymal 12.

10.2 Bydd unrhyw ddyletswydd heb ei chyflawni (gan gynnwys dyletswydd i ad-dalu costau a gafwyd yn briodol) a osodir gan y Cytundeb hwn ar y naill barti neu'r llall i'r Cytundeb hwn yn parhau mewn grym nes y bydd wedi'i chyflawni er i'r Cytundeb gael ei derfynu yn unol â'r Cytundeb hwn oni chytunir fel arall gan y Partïon.

11. Rhyddid Gwybodaeth

11.1 Rhaid i Horizon, wrth gyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor, wneud pob ymdrech resymol i nodi'n glir gyda rhesymau unrhyw wybodaeth na ddylid, yn ei farn ef, gael ei datgelu gan y Cyngor yn unol ag unrhyw geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a/neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

11.2 Os bydd y Cyngor yn derbyn unrhyw geisiadau am wybodaeth a/neu wybodaeth amgylcheddol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a/neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yng nghyswllt Horizon a/neu'r Cynnig Datblygu ("y Cais"), bydd yn:

11.2.1 ymgynghori â Horizon cyn rhyddhau unrhyw wybodaeth y gofynnwyd amdani; a
11.2.2 caniatáu cyfnod rhesymol i Horizon gyflwyno sylwadau ynghylch sut y dylid delio â'r cais;
11.2.3 rhoi ystyriaeth lawn a phriodol i'r cyfryw sylwadau a wneir gan Horizon.

11.3 Ni chaiff y Cyngor, heb ganiatâd Horizon, ddatgelu na chaniatáu na goddef datgelu, boed hynny o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 neu fel arall, unrhyw ran o gynnwys na bodolaeth:

11.3.1 unrhyw rai o'r dogfennau y mae'r Partïon wedi cytuno sy'n gyfrinachol yn unol â'r Cytundeb hwn;

11.3.2 gwybodaeth a ddarperir dan y Cytundeb hwn ar unrhyw adeg ar wahân i'w gynghorwyr proffesiynol

ac eithrio i'r graddau y gall fod angen datgelu o dan y gyfraith neu o dan unrhyw awdurdod rheoleiddio neu restru.

11.4 Mae Horizon yn cydnabod, er darpariaethau cymalau 11.1,11.2 a 11.3, y gall fod angen i'r Cyngor, o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1994, gan weithredu'n unol â Chod Ymarfer yr Adran Materion Cyfansoddiadol ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Cyhoeddus o dan Rhan 1 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Cod"), ddatgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynnig Datblygu yn dilyn ymgynghori â Horizon ac ar ôl ystyried eu barn, gyhyd â bod y Cyngor, lle mae cymal 11.3.1 yn berthnasol, ac yn unol ag argymhellion y Cod, yn dwyn sylw Horizon at hyn cyn unrhyw ddatgelu.

12. Terfynu'r CPC

12.1 Caiff Horizon ar unrhyw adeg ac yn ôl ei ddisgresiwn llwyr derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig i'r Cyngor o'i fwriad i derfynu'r Cytundeb hwn, yn amodol ar ddarpariaethau cymal 8.7 ac is-gymalau 12.4 a 12.6.

12.2 Caiff y Cyngor ar unrhyw adeg ac yn ôl ei ddisgresiwn llwyr derfynu'r Cytundeb hwn drwy roi o leiaf 10 diwrnod gwaith o rybudd ysgrifenedig i Horizon o'i fwriad i derfynu'r Cytundeb hwn, yn amodol ar ddarpariaethau cymal 8.10 ac is-gymalau 12.4 a 12.5.

12.3 Mae dyletswydd Horizon i dalu yn dod i ben adeg terfynu ar gyfer costau a wynebir ar ôl y terfynu, ac eithrio fel y darperir ar ei gyfer yng nghymalau 8 a 12.6 neu fel y cytunir arno fel arall gan y Partïon.

12.4 Yn dilyn rhoi rhybudd terfynu, ni chaiff y Cyngor weithredu na gwneud unrhyw ymrwymiad a fyddai'n arwain at ragor o gostau i'r Prosiect. Rhaid i'r Cyngor wneud ei orau glas i liniaru'r costau ac adleoli adnoddau er mwyn lleihau maint Costau'r Prosiect sy'n daladwy i Horizon yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn.

12.5 Pan fydd y Cyngor wedi rhoi rhybudd terfynu o dan gymal 12.2, rhaid i Fwrdd Prosiect Strategol Wylfa gyfarfod yn ddi-oed i adolygu'r gwaith sydd heb ei wneud a phenderfynu sut y caiff ei derfynu, neu ei barhau yn ôl disgresiwn y Cyngor, ar gost y Cyngor yn unol â chymal 8.10.

12.6 Pan fydd Horizon wedi cyflwyno rhybudd terfynu dan gymal 12.1, bydd Horizon yn talu'r cyfan o'r Costau Prosiect yng nghyswllt y Gorchmynion Gweithgarwch neu Orchmynion Amrywio sydd wedi'u cymeradwyo sy'n berthnasol i gyfnod cyn y dyddiad terfynu a chostau a ysgwyddwyd yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn ac unrhyw Gostau Prosiect sy'n berthnasol i gyfnod ar ôl y dyddiad terfynu (os na fu modd osgoi'r rhain yn unol â chymal 12.4) hyd at uchafswm o:

12.6.1 dri mis yn achos Costau Prosiect mewnol (hy costau gweithwyr /staff y Cyngor); a

12.6.2 y cyfnod a nodir yn y Gorchymyn Gweithgarwch perthnasol fel y cyfnod rhybudd ar gyfer ymgynghorwyr neu gontractwyr allanol a benodwyd o dan Orchmynion Gweithgarwch sy'n gyfredol adeg terfynu'r Cytundeb.

13. Eiddo Deallusol

13.1 Bydd yr holl Eiddo Deallusol a grëir neu a gynhyrchir gan y Cyngor (gan gynnwys y rheini a grëir neu a gynhyrchir gan ei ymgynghorwyr, gweithwyr neu gynghorwyr) wrth weithredu unrhyw Orchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio (yr "ED Datblygedig") neu sy'n deillio o weithredu'r cyfryw orchmynion, yn perthyn i'r Cyngor a byddant yn eiddo llwyr i'r Cyngor.

13.2 Bydd yr holl Eiddo Deallusol a grëir neu a gynhyrchir gan Horizon (gan gynnwys y rheini a grëir neu a gynhyrchir gan unrhyw rai o'i ymgynghorwyr, gweithwyr neu gynghorwyr) wrth weithredu unrhyw Orchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio neu sy'n deillio o weithredu'r cyfryw orchmynion, yn perthyn i Horizon a byddant yn eiddo llwyr i Horizon.

13.3 Rhaid i'r Cyngor ddarparu'r holl Eiddo Deallusol Datblygedig i Horizon, neu ei gaffael, ac unrhyw Eiddo Deallusol y mae Horizon ei angen er mwyn Defnyddio'r Eiddo Deallusol Datblygedig ar sail trwydded anghyfyngol, ddi-freindal y gellir ei throsglwyddo'n rhwydd yn fythol-barhaus yn ôl y telerau ac amodau a nodir yng ngweddill y cymal hwn, sef cymal 13 ("Trwydded"). At ddibenion cymalau 13.3 a 13.4, mae "Defnyddio" yn golygu defnyddio, addasu, copïo a/neu newid ac mae Horizon yn dal budd pob Trwydded iddo'i hun ac ar gyfer pob endid y cyfeirir ato yn y cymal hwn, 13.3. Bydd Trwydded o'r fath yn gymwys pan fydd y Cytundeb hwn wedi'i derfynu neu wedi dod i ben.

13.4 Bydd y Drwydded yn caniatáu i unrhyw gwmni neu gorfforaeth y mae gan Horizon ac unrhyw rai o'i gwmnïau cysylltiedig (gan gynnwys RWE npower plc a E.ON UK PLC a'u cwmnïau cysylltiedig) o leiaf ugain y cant (20%) o fuddiant ecwiti ynddo gael Defnyddio'r Eiddo Deallusol, a chael mynediad ato, ac unrhyw drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau i endid o'r fath ar yr amod na chaiff y cyfryw drydydd parti ond Defnyddio a chael mynediad i'r cyfryw Eiddo Deallusol at ddibenion cyflawni gwasanaethau ar gyfer yr endid hwnnw yn unig.

13.5 Ni fydd y Drwydded yn cyfyngu ar hawliau a rhwymedïau Horizon dan y Cytundeb hwn yng nghyswllt yr Eiddo Deallusol.

13.6 Bydd y Drwydded yn cael ei rhoi gan y Cyngor neu bydd y Cyngor yn peri i'r Drwydded gael ei rhoi i Horizon ar ddyddiad Defnyddio'r cyfryw Eiddo Deallusol am y tro cyntaf mewn Gorchymyn Gweithgarwch.

13.7 Rhaid i Horizon, ar gais, ddarparu i'r Cyngor, neu gaffael ar gyfer y Cyngor, hawliau cyfatebol i'r rheini a roddir i Horizon o dan gymalau 13.3, 13.4, 13.5 a 13.6 yng

nghyswllt unrhyw Eiddo Deallusol a grëir o dan gymal 13.2 y Cytundeb hwn. Ond caiff Horizon yn unol â'i ddisgresiwn llwyr wrthod cais o'r fath lle byddai Defnyddio fel hyn yn torri unrhyw gyfraith neu am resymau cyfrinachedd fasnachol neu ddiogelwch a gwarchodaeth gyhoeddus.

13.8 Rhaid i'r Cyngor neu Horizon, ar gais, roi gwybod i unrhyw un o ddarpar drwyddedeion Horizon neu'r Cyngor am hawliau Horizon neu'r Cyngor dan y cymal hwn, cymal 13.

14. Datrys Anghydfod

14.1 Mae'r Partïon yn cytuno y byddant yn ceisio cydweithio i sicrhau y cyflawnir amcanion y Cytundeb hwn. Bydd y Partïon yn y lle cyntaf yn ddidwyll yn ceisio datrys unrhyw anghydfod eu hunain drwy drafodaethau rhwng rheolwyr prosiect dynodedig y Partïon a fydd ag awdurdod i ddatrys anghydfod.

14.2 Os na fydd rheolwyr y prosiect yn gallu datrys yr anghydfod yn unol â chymal 14.1 cyn pen 20 diwrnod gwaith, bydd darpariaethau canlynol y cymal hwn yn berthnasol:

14.2.1 Cyfeirir yr anghydfod at BPSW gan reolwyr y prosiect. Bydd rheolwyr y prosiect yn cyflwyno adroddiad y cytunwyd arno i BPSW yn nodi manylion y materion y mae anghydfod yn eu cylch rhwng y Partïon. Efallai y bydd BPSW yn gofyn i weithwyr sy'n gysylltiedig â'r anghydfod o'r naill Barti neu'r llall ddod i'r cyfarfod;

14.2.2 Os na fydd BPSW yn gallu datrys yr anghydfod bydd BPSW yn cyfeirio'r anghydfod at Noddwyr y Prosiect. Wrth wneud hyn bydd BPSW yn rhoi barn y ddau Barti am sut y gellid datrys yr anghydfod; a

14.2.3 Bydd Noddwyr y Prosiect yn cyfarfod cyn gynted ag y bo modd er mwyn datrys yr anghydfod yn ddidwyll. Bydd gan Noddwyr y Prosiect hawl i ofyn i weithwyr sy'n gysylltiedig â'r anghydfod o'r naill Barti neu'r llall ddod i'r cyfarfod. Os na fydd yr anghydfod yn cael ei ddatrys yn y cyfarfod, bydd raid i bob Parti nodi'n ysgrifenedig ei safbwynt terfynol yng nghyswllt yr anghydfod ac amlinellu'r ffordd ymlaen y maent yn ei hargymell. Bydd angen i bob parti ystyried goblygiadau hyn (os bydd rhai) ar eu rolau a'u cyfrifoldebau eu hunain, ar Orchmymion Gweithgarwch neu Orchmynion Amrywio sydd heb eu cwblhau ac ar Amserlen y CCP. Bydd materion o'r fath yn cael eu cyfeirio'n ôl ar gyfer eu trafod yng nghyfarfod nesaf BPSW.

14.3 Nid oes dim yn y cymal hwn, Cymal 14, a fydd yn rhwystro'r naill Barti neu'r llall rhag arfer ei hawl i derfynu neu i dynnu ei gefnogaeth yn ôl ar gyfer Gorchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio yn unol â chymalau 8 a 12.6 hyd yn oed os yw'r anghydfod yn ymwneud neu'n gysylltiedig â'r Gorchymyn Gweithgarwch neu'r Gorchymyn Amrywio.

15. Darpariaethau Aseinio a Throsglwyddo

Ni fydd gan Horizon hawl i aseinio budd y Cytundeb hwn nac unrhyw hawliau sy'n deillio ohono nac unrhyw ran ohonynt (ac eithrio ar gyfer trosglwyddo i gwmni arall sy'n gwmni cysylltiedig (a fydd yn cynnwys RWE npower plc ac E.ON UK plc a'u cwmnïau cysylltiedig) heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y Cyngor, ac ni ddylid atal neu ohirio caniatâd o'r fath yn afresymol.

16. Cyfraith Llywodraethu

Bydd y Cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad a fydd yn deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu ei destun, ei fodolaeth, negodi yn ei gylch, ei ddilysrwydd, ei derfynu neu o ran y gallu i'w orfodi (gan gynnwys anghydfodau neu hawliadau heb fod o dan gontract) yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr a lle bydd anghydfod rhwng y ddwy, cyfraith Cymru fydd drechaf.

17. Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999

Ni fydd Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999 yn berthnasol i'r Cytundeb hwn ac ni fydd gan neb ar wahân i'r Partïon (ac unrhyw olynwyr mewn teitl, aseineion neu gyrff olynu) unrhyw hawliau o dan ddarpariaethau'r Cytundeb hwn nac yn gallu gorfodi'r cyfryw ddarpariaethau.

18. Rhybuddio a Hysbysu

18.1 Bydd unrhyw hysbysiad neu rybudd dan y Cytundeb hwn ar ffurf ysgrifenedig a rhaid eu cyflwyno yn unol â darpariaethau'r cymal hwn.

18.2 Rhaid i unrhyw hysbysiad neu rybudd i derfynu'r Cytundeb hwn neu Orchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio fod ar ffurf ysgrifenedig a rhaid ei gyflwyno i'r canlynol yn y cyfeiriad a nodir isod, neu unrhyw berson arall y bydd y parti wedi rhoi gwybod amdano i'r partïon eraill:-

Parti	**Y sawl y dylid anfon y rhybudd ato**
Y Cyngor	
Horizon	

18.3 Oni chytunir arno'n benodol gan y Partïon i'r Cytundeb hwn ni chaiff rhybudd yn terfynu'r Cytundeb hwn neu Orchymyn Gweithgarwch neu Orchymyn Amrywio ei anfon dros yr e-bost neu ffurf electronig arall o gyfathrebu.

19. Adolygu ac Amrywio

19.1 Caiff y Partïon adolygu'r Cytundeb hwn unrhyw bryd a chaiff newid neu amrywio ei delerau. Rhaid i newid neu amrywiad o'r fath fod yn ysgrifenedig ac wedi'i lofnodi gan gynrychiolydd awdurdodedig y ddau Barti.

19.2 Os bydd newid yn y gyfraith sy'n effeithio ar weithrediad y Cytundeb hwn, rhaid i'r Partïon negodi'n ddidwyll i newid y Cytundeb er mwyn gwarchod hyd y bo modd fwriadau'r Partïon fel yr amlygir yn y Cytundeb hwn.

20. Toradwyedd

Os datgenir gan unrhyw awdurdod barnwrol neu awdurdod cymwys arall bod unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb hwn yn ddi-rym, yn ddirymadwy, yn anghyfreithlon, neu fel arall yn amhosibl ei gorfodi, neu y derbynnir awgrym o'r cyfryw gan unrhyw un o'r Partïon oddi wrth unrhyw awdurdod cymwys perthnasol, bydd gweddill darpariaethau'r Cytundeb hwn yn aros mewn llawn grym ac effaith, yn amodol ar gymal 19.

21. Dogfennau Cyfeirio

21.1 Mae modd gweld y dogfennau cyfeirio canlynol ar y gwefannau sydd gan y Partïon:

21.1.1 Crynodeb Anhechnegol CPC Wylfa
21.1.2 Diagram Adwyon Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa
21.1.3 Protocol Cyfathrebu a'r Wasg CPC
21.1.4 Dogfen Trefniadau Cydweithio Wylfa
21.1.5 Anfonebu a Thalu

Gwnaed y Cytundeb hwn ar y dyddiad a nodir ar ei gychwyn.

Llofnodwyd ar ran Horizon Nuclear Power Wylfa Limited

.....
Llofnodwr Awdurdodedig

.....
Llofnodwr Awdurdodedig

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir Ynys Môn

.....
Llofnodwr Awdurdodedig

----------DIWEDD----------

HEB FARC DIOGELU

ATODIAD 1a: GORCHYMYN GWEITHGARWCH CPC ADEILAD NIWCLEAR NEWYDD (*NNB*) WYLFA

Cyf. y Gorchymyn Gweithgarwch	**Teitl:**		
Arweinydd y Pecyn Gwaith		Cyllideb a Gymeradwywyd	**£**
Dyddiad cychwyn arfaethedig		Dyddiad cwblhau disgwyliedig	
Cyfiawnhad: • **Amcanion:** •			
Canlyniadau i'w Sicrhau: • •			
Sut y cyflawnir y Gweithgarwch: • •			
Beth sydd heb ei gynnwys: • •			
Rhestr Brisio: • •			
Adnoddau/Caffael: Mewnol - Allanol -			
Telerau ac Amodau : • **Cyfnod Rhybudd ar gyfer Terfynu:**			
Cerrig milltir: • •			
Prif Risgiau: • •			
Rhagdybiaethau: • •			
Rhyngddibyniaethau:			

•   •
Sylwadau:

Cymeradwyaeth *AOR*, ar gyfer ac ar ran:	**Dyddiad:**
Horizon Nuclear Power: Cyngor Sir Ynys Môn :	

ATODIAD 1b: GORCHYMYN AMRYWIO CPC ADEILAD NIWCLEAR NEWYDD WYLFA

Cyf. y Gorchymyn Amrywio	**Teitl:**		
Y Math o Amrywiad a Geisir:	[Cyllideb / Dyddiad Cychwyn / Dyddiad Cwblhau / Cwmpas] dileer fel y bo'n briodol		
Arweinydd y Pecyn Gwaith		Y Gyllideb Wreiddiol a Gymeradwywyd	**£**
		Yr Amrywiad a Geisir (os yw'n berthnasol)	**£**
		Cyllideb Ddiwygiedig	£
Dyddiad cychwyn arfaethedig gwreiddiol		Dyddiad cwblhau disgwyliedig gwreiddiol	
Dyddiad cychwyn arfaethedig a gynigir (os yw'n berthnasol)		Dyddiad cwblhau disgwyliedig a gynigir (os yw'n berthnasol)	
Disgrifiad o'r Amrywiad(au) a Chyfiawnhad drostynt: • •			
Rhestr Brisio Ddiwygiedig (os yw'n berthnasol): • •			
Adnoddau Ychwanegol Gofynnol (os yw'n berthnasol) Mewnol - Allanol -			
Cerrig Milltir Diwygiedig: (os yw'n berthnasol) • •			
Prif Risgiau Diwygiedig: (os yw'n berthnasol) • •			
Rhagdybiaethau Diwygiedig: (os yw'n berthnasol) • •			
Rhyngddibyniaethau Diwygiedig (os yw'n berthnasol) • •			
Sylwadau:			

Cymeradwyaeth *VOR*, ar gyfer ac ar ran:	**Dyddiad:**
Horizon Nuclear Power:	
Cyngor Sir Ynys Môn :	

HEB FARC DIOGELU

Atodiad 2: Trefniadau Llywodraethu CPC Wylfa: Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa (BPSW)



Atodiad 3: Cylch Gorchwyl Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa

1. Cylch Gorchwyl Bwrdd Prosiect Strategol Wylfa (BPSW):

a) Bydd BPSW yn adrodd i Noddwyr y Prosiect fel y nodir yn Atodiad 2. Bydd Noddwyr y Prosiect yn mynychu cyfarfodydd BPSW bob chwe mis neu fel y cytunir fel arall gan y PartïonBydd aelodaeth y Bwrdd Prosiect Strategol yn unol â throsolwg Llywodraethu BPSW a nodir yn Atodiad 2 ynghyd â chynrychiolaeth amgen lle bydd aelodau eraill BPSW wedi cytuno i hynny.
c) Ystyrir bod gan holl Aelodau BPSW, neu eilyddion a benodir yn unol ag cymal 2.1 isod, yn sgil cael eu penodi i BPSW ar ran eu sefydliad, awdurdod llawn a dilyffethair i gymryd penderfyniadau rhwymol sy'n gysylltiedig â rhaglen waith y CPC ar ran eu sefydliad.
d) Bydd cadeiryddiaeth BPSW yn cael ei chylchdroi, gyda chynrychiolydd y Cyngor yn cadeirio am yn ail â chynrychiolydd Horizon
e) Rhaid i bob penderfyniad y bydd angen i BPSW ei wneud fod yn unfrydol er mwyn ei basio, er y gall y naill Barti neu'r llall nodi unrhyw amheuon sydd ganddynt ynghylch cwmpas neu ddigonolrwydd y cyfryw benderfyniad. Os na fydd modd datrys anghydfod drwy negodi rhwng y Partïon, bydd cymal [14] yn berthnasol.

Darpariaethau llywodraethu ychwanegol:

2.1 Bydd gan bob aelod o BPSW, drwy roi rhybudd i BPSW, hawl i benodi un eilydd ar unrhyw adeg i weithredu ar ei ran. Bydd gan bob unigolyn a fydd yn gweithredu fel eilydd un bleidlais ar gyfer pob aelod y mae'n gweithredu fel eilydd iddo, yn ogystal â'i bleidlais ei hun os yw ef hefyd yn aelod, ac er mwyn penderfynu a oes cworwm, bydd yn cael ei gyfrif ar gyfer ef ei hun ac ar gyfer pob aelod y mae'n gweithredu fel eilydd iddo. Fel nad oes dim amheuaeth, caiff unigolyn weithredu fel eilydd ar gyfer mwy nag un aelod.

2.2 Bydd hawl gan aelod sy'n eilydd i gael gwybod am holl gyfarfodydd BPSW, mynychu a phleidleisio mewn unrhyw gyfarfod lle nad yw'r aelod sy'n ei benodi yn bresennol ei hun ac yn y cyfarfod i arfer a chyflawni holl swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau y sawl a'i penododd fel aelod.

2.3 Lle bo'n ymarferol, rhaid rhoi 5 diwrnod gwaith o rybudd o leiaf i bob aelod (lle bynnag y bydd) o gyfarfodydd BPSW oni fydd yr holl aelodau mewn unrhyw achos arbennig yn cytuno i gyfnod rhybudd byrrach neu hirach. Gyda'r rhybudd rhaid cynnwys agenda o'r holl fusnes i'w gyflawni yn y cyfarfod a phapurau ategol rhesymol ar gyfer pob eitem ar yr agenda. Ni cheir codi unrhyw fater nad yw ar yr agenda yn y cyfarfod oni bai fod yr holl aelodau sydd yn y cyfarfod yn cytuno.

2.4

2.4.1 Bydd penderfyniad sydd wedi'i lofnodi neu ei gymeradwyo gan bob aelod sydd â hawl i dderbyn rhybudd o gyfarfod BPSW yr un mor ddilys ac effeithiol â phetai wedi'i basio mewn cyfarfod o aelodau a alwyd ac a etholwyd yn briodol.

2.4.2 Efallai y bydd y penderfyniad y cyfeirir ato yn 2.4.1 wedi'i gynnwys mewn un ddogfen neu mewn sawl dogfen ar ffurf debyg, pob un wedi'i llofnodi neu ei chymeradwyo gan un neu fwy o'r aelodau perthnasol; ond nid oes angen i benderfyniad a lofnodir neu a gymeradwyir gan eilydd gael ei lofnodi neu ei

gymeradwyo gan y sawl a'i penododd hefyd ac, os bydd yn cael ei lofnodi neu ei gymeradwyo gan aelod sydd wedi penodi eilydd, nid oes angen iddo gael ei lofnodi neu'i gymeradwyo gan yr eilydd yn rhinwedd hynny.

2.4.3 At ddibenion 1.4, gellir cyflwyno cymeradwyaeth aelod neu eilydd drwy lythyr, ffacs neu e-bost.

2.5 Caiff cyfarfod o BPSW fod ar ffurf cynhadledd rhwng aelodau, rhai neu'r cyfan ohonynt mewn mannau gwahanol gyhyd â bod pob aelod sy'n cyfrannu'n gallu:

(a) clywed pob un o'r aelodau eraill wrth iddynt annerch y cyfarfod; a

(b) os bydd am wneud hynny, annerch yr holl aelodau eraill sy'n cyfrannu ar yr un pryd,

boed yn uniongyrchol, drwy gynadledda ffôn neu drwy gyfrwng unrhyw fath arall o gyfarpar cyfathrebu (pa un a oedd ar gael neu beidio pan ddaeth y cytundeb hwn i rym) neu drwy gyfuniad o'r dulliau hynny.

2.6 Bydd cworwm gan BPSW gyhyd â bod pob Parti yn cael ei gynrychioli mewn cyfarfod gan o leiaf un cynrychiolydd sydd wedi'i awdurdodi i weithredu yn unol ag Dogfen cymal 1 (c) uchod.

2.7 Bydd cyfrifoldebau BPSW yn cynnwys y canlynol ond heb eu cyfyngu iddynt:

- Monitro cynnydd a gweithrediad y CPC, gan gynnwys:
- Nodi buddion ac effeithiau allweddol y Cynnig Datblygu;
- Cytuno ar Amserlen y CPC lefel uchel a'i diweddaru;
- Cytuno ymlaen llaw ar Orchmynion Gweithgarwch a Gorchmynion Amrywio a fydd yn sicrhau bod Amserlen y CPC yn gyffredinol yn cael ei chyflawni;
- Cytuno ymlaen llaw ynghylch darparu adnoddau i dimau tasg a/neu gomisiynu ymgynghorwyr i gyflawni Gweithgareddau, a thalu ac anfonebu yn unol â thelerau Gorchmynion Gweithgarwch a Gorchmynion Amrywio;
- Llofnodi'n derfynol bod y Gweithgareddau wedi'u cyflawni yn erbyn cerrig milltir ar gyfer talu;
- Cyfarfod yn rheolaidd yn unol ag anghenion Amserlen y CPC;
- Rheoli'r gwaith o ddatrys anghydfodau a phroblemau rhwng y Partïon

2.8 Rhaid i BPSW adrodd i Noddwyr y Prosiect bob 3 mis o leiaf neu gyfnod sy'n bodloni anghenion y CPC ac fel y cytunir fel arall rhwng BPSW a Noddwyr y Prosiect.

2.9 Bydd cyfarfod cyntaf BPSW yn cael ei gynnal yn dilyn llofnodi CPC Wylfa. Yr adeg honno efallai y bydd BPSW eisiau trafod y cylch gorchwyl hwn a chytuno ar unrhyw ddiwygiadau os tybir bod angen gwneud hynny.